

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

6/11/2016

Presennol: Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothei Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

1. Croesawyd pawb gan Y Maer a derbyniwyd ymddiheuriad Ivora Jones. Estynnwyd croeso arbennig i Mr Julian Birley a Mr Steve Davies a soniodd am ddatblygiadau Rheilffordd Llyn Tegid. Dywedwyd fod y cynlluniau yn symud ymlaen yn gyflym a bod astudiaethau wedi cael eu gwneud o sut mae croesi'r ffordd wrth bont Mwnwgl y Llyn a theithio ar hyd yr amddiffynfa gorlif. Roedd y ddau o'r farn y byddai budd economaidd i'r ardal yn deillio o'r datblygiad gan roeddent yn rhagweld 60,000 o ymwelwyr y flwyddyn ar ôl i'r rheilffordd ar ei newydd wedd sefydlu ei hun. Diolchwyd i'r ddau am gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor.

Estynnwyd croeso hefyd i'r ddau PCSO lleol a bu trafodaeth ar fesurau posib i arafu trafndiaeth mewn i'r dref o gyfeiriad Llanfor, megis ymestyn y cyfyngiad 30mya i du hwnt i'r Bryn. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Cymuned Llandderfel a fyddent yn barod i gefnogi mesur o'r fath, yn arbennig gan fod mwy o drafnidiaeth wrth Gorwelion erbyn hyn. Mae'r Wardeiniaid Traffic wedi ymweld â nifer o fannau yn y dref lle mae problemau parcio. Diolchwyd iddynt am ymweld ac am eu gwaith.

2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/10/2016.
5. Materion y Clerc a materion yn codi o'r Cofnodion:

Biniau gorlawn – cafwyd ymateb Cyngor Gwynedd yn dweud fod casglu dyddiol o'r biniau stryd a bod ail-edrych ar lanweithdra'n gyffredinol.

Derbyniodd Dilwyn Morgan ateb y Llywodraeth yn mynegi y bydd gwaith uwchraddio'r Stryd Fawr yn cychwyn yn y flwyddyn newydd.

Mae Prif Swyddog Un Llais Cymru yn cyfarfod a'r Prif Archwiliwr i drafod y cwynion niferus am y Cyfrifwyr Allanol eleni.

Derbyniwyd gwybodaeth am y sawl sydd â chyfrifoldeb dros ymddangosiad Ysgol Tŷ tan Domen a sylwyd fod peth gwaith cynnal wedi ei wneud i'r lawnt.

Rhannwyd gwybodaeth am drefniadau Sul y Cofio a'r torchau a fydd yn cael eu cyflwyno gan y Cyngor. Diolchwyd i J C Williams am wirfoddoli unwaith eto i lanhau'r Gofeb Coffa.

Adroddwyd y bu rhywfaint o docio ar y gwrych ym Maesybronnydd sydd yn culhau'r palmant.

Cadarnhaodd y PCSOs y byddant yn ymwneud a'r cerbydau sy'n parcio ar y palmant ym Maesybronnydd.

6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan bod trafodaethau lleol ar gynlluniau drafft i roi trefn ar barcio wrth waelod Heol Ffrydan. Mae archwiliad o ddiogelwch y coed ar lwybr Cae Mawr wedi ei drefnu. Mae Llwybr y Sgotwyr yn parhau i gael sylw. Mynegodd ei falchder fod Comisiynydd yr Heddlu yn cynnal cyfarfod yn Y Bala ar 7/12/16 ac anogodd pawb i fynychu. Mae mewn trafodaethau i gael mainc wedi ei gosod rhwng Awel y Coleg a'r dref. Diolchwyd iddo am y mesurau diogelwch a drefnodd yng Nghysgod y Coleg.

7. Materion Cynllunio

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i NP5/53/L41R sef amnewid peiriant ATM HSBC
- b. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i NP5/53/LB301G sef amnewidiadau mewnol i drosi'r llawr cyntaf a'r ail lawr yn llety gwesty, a darparu llwybr dianc ychwanegol ym Mhlas yn Dref, Y Bala

8. Materion Cyllid

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, gan gynnwys llythyr HMRC; mae mater y dreth yn derbyn sylw'r Cyfrifwyr.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: Gwaith ar gynnal y Domen, Tâl aelodaeth SLCC (rhannu gyda Llanuwchllyn) a chyfraniad blynyddol tuag at weinyddu Partneriaeth Penllyn. Cytunwyd i dalu'r cyfraniad a drafodwyd llynedd am drydan i oleuo'r coed.
- iii Cytunwyd ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid

9. Trefniadau'r Nadolig:

- i. Cytunwyd ar drefniadau'r Cyngor tuag at y Noson Siopa Hwyr; mae mater goleuo'r coed mewn llaw ac yn dibynnu llawer ar gwmp y dail ac argaeledd gweithwyr Cyngor Gwynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl mwy o wybodaeth a ffurflenni eleni, gan gynnwys manylion yswiriant. Cytunwyd i noddi'r gystadleuaeth addurno ffenest siop fel arfer, gyda disgyblion hŷn o Ysgol y Berwyn yn beirniadu ar 1/12/16.
- ii. Cytunwyd i drefnu Cinio Nadolig y Cyngor.

10. Gohebiaeth

Gwynedd: Cytunwyd i ateb ymholiad Cyngor Gwynedd ar y nifer sy'n cysgu ar y Stryd.

Heddlu: Rhannwyd gwybodaeth am y cyfarfod cyhoeddus "Dweud eich dweud".

Un Llais Cymru: rhannwyd manylion hyfforddiant 30.11.16 am 6.30 yng Nghanolfan Henblas

Partneriaeth Penllyn: Partneriaeth Penllyn: adroddodd y cynrychiolwyr fod y Cydlynnydd wedi cyhoeddi yng nghyfarfod dechrau'r wythnos ei bod yn dymuno ymddeol o'i swydd.

Mae'r ffurflen gais i drosglwyddo'r Henblas i feddiant Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf gystal â bod yn barod. Mae cais y Bartneriaeth i fod yn rhan o brosiect Arloesi Gwynedd Wledig wedi bod yn llwyddiannus a bydd cymorth ar gael i ymgymryd â mwy o waith ar ran Cyngor Gwynedd. Trefnwyd cyfarfod i'r sector hunangyflogedig wybod am gefnogaeth sydd ar gael (megis ar gyfer tendro, iechyd a diogelwch ayyb).

Mae'r Cynghorau gwledig wedi gofyn i Bartneriaeth Penllyn edrych mewn i'r posibilrwydd o gyflenwi halen i'w biniau.

Cyflwynodd Mari Jones Williams opsiynau gwahanol ar gyfer parhad "Y Cyfnod".

Cytunwyd i dalu'r ffi flynyddol tuag at weinyddu'r Bartneriaeth.

Derbyniwyd neges o Gyngor Gwynedd am y toiledau a chytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn gymryd at y cyfrifoldeb o drafodaethau am doiledau'r Grîn a'r Plase.

Asedau'r Cyngor - Derbyniwyd yn ddiolchgar yr posibilrwydd o gyllid gan y Clwb Garddio i gyflenwi blodau yn y bocsys ar y ffordd mewn i'r dref ac wrth y Banc HSBC

Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Parcio trwy'r dydd ar y Stryd Fawr – cytunwyd i anfon manylion at Adran Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd
- ii. Tir gwlyb wrth y Ganolfan Hamdden – cytunodd Cynghorydd Dilwyn Morgan ymchwilio i'r mater.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8/12/16 am 6.30